

Nivolumab ar gyfer canser yr ysgyfaint cennog lle nad yw'r celloedd yn fach a driniwyd yn flaenorol

1 Tachwedd 2017

Mae nivolumab (Opdivo) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint datblygedig yn lleol neu fetastatig cennog lle nad yw'r celloedd yn fach mewn oedolion, ar yr amod y caiff ei stopio ar ôl 2 flynedd o driniaeth neu'n gynt os yw'r afiechyd wedi lledu neu ddychwelyd.

Os nad ydych yn gymwys i gael nivolumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint](#), 03000 030 555
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0800 808 0000
- [Fforwm Canser yr Ysgyfaint Cenedlaethol ar gyfer Nyrsys](#), 01675 477 607
- [Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle](#), 0333 323 7200

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1884-3